

# Haneswyr Cymru

Cylchlythyr myfyrwyr Hanes y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

@HanesCCC

## Berlin i Aber i Gaerdydd!

Ers 1 Ionawr 2018, mae gan Gaerdydd Ddarlithydd Hanes Cymru newydd, sydd hefyd yn darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Eleni yw blwyddyn llawn gyntaf Dr Marion Löffler yno.

Ei harbenigedd yw Cymru adeg y Chwyldro Ffrengig, a hanes diwylliannol y Gymru fodern cyn diwedd y G19. Mae hi'n dysgu dau fodiwl yn y Gymraeg, sef 'Hanes wedi ei Gyd-Weu: Cymru a'r Byd, 1714-1858' (Bl. 2) a 'Cymru, Mudiad Diwygio'r Senedd, a Chwyldro Ffrengig 1789' (Bl. 3).

Magwyd Marion yn Nwyrain Berlin. Cyn symud i Gaerdydd bu'n gweithio yn y Ganolfan Geltaidd, Aberystwyth, a chyn hynny ym mhrifysgol nodedig Humboldt ym Merlin.

I'r sawl ohonoch sydd â diddordeb mewn hanes cymdeithasol a gwleidyddol Cymru, byddai ei darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn werth ei darllen. Codwyd y llen ar gyfres o derfysgoedd yng Nghymru'r 1790au, ac yn enwedig un Merthyr Tydfil, ym mis Medi 1800, a arweiniodd at ddienyddiad dau ddyn ifanc, merthyron cyntaf dosbarth gweithiol Cymru. Crogwyd y ddau ar yr Heol Plwca ('Death Junction' heddiw, y groesffordd rhwng Heol y Crwys, Heol y Ddinas, Albany Road) yn 1801, am eu rhan mewn terfysg am fara ar adeg o newyn.

Ar drywydd ychydig yn llai gwaedlyd, os hoffech wybod rhagor am gysylltiadau Llys Llanofar â'r byd, darllenwch ei herthygl ddiweddaraf, 'Olion Llenyddol Ymwelwyr â Llanofar', yn Llên Cymru, 41 (Hydref 2018).

Mae Marion yn ymuno â Dr Martin Wright, gan ychwanegu at y ddarpariaeth Hanes drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifddinas.



## Y Jacs yn erbyn y Kaiser

Mewn pryd ar gyfer eich rhestr anrhegion Nadolig mae llyfr newydd Dr Gethin Matthews, Prifysgol Abertawe a darlithydd Hanes cenedlaethol CCC.

Mae 'Having a go at the Kaiser: A Welsh Family at War' yn adrodd hanes y brodyr Richard, Gabriel ac Ivor Eustis yn y Rhyfel Mawr. Gwneir hyn trwy gyfrwng eu llythyrau. Mae'n olwg ddiddorol a dirdynnol ar fywyd ar faes y gâd a'r gymdeithas nôl adre ym Mynydd Bach, Abertawe.

Lansiwyd y llyfr ym mis Tachwedd yng Nghapel Mynyddbach, capel y brodyr. Cyhoeddwyd y llyfr gan Wasg Prifysgol Cymru a'r pris yw £14.99.

## Ysgoloriaeth Ymchwil

Os oes diddordeb gennych mewn gwneud doethuriaeth ym maes Hanes (neu unrhyw bwnc) yna mae'r Coleg Cymraeg yn cynnig ysgoloriaeth gwerth 50% o'r ymchwil (gyda'r brifysgol yn talu'r 50% arall) neu ysgoloriaeth 100% o'r gost os yw'r brifysgol yn cynnig swydd dwy flynedd wedi gorffen y ddoethuriaeth.

**Dyddiad cau ar gyfer yr ysgoloriaethau yma yw 1 Chwefror 2019.**

**Ceir y manylion ar wefan y Coleg, yma:**  
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/ysgoloriaethauymchwil/>

## Llongyfarchiadau Mei!

Un person a fanteisiodd ar Ysgoloriaeth Ymchwil y Coleg Cymraeg oedd Meilyr Powel o Abertawe.

Graddiodd Meilyr mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Hanes Milwrol ac yna astudiodd gradd Meistr mewn Astudiaethau Strategol ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 2005-09.

Wedi cyfnod yn gweithio gyda Rondo Media ar raglenni fel *Sgorio*, penderfynodd ddychwelyd yn ôl i fyd addysg gan ddilyn cwrs PhD ym Mhrifysgol Abertawe o dan arweiniad Dr Gethin Matthews yn yr Adran Hanes a Chlasuron.



Pwnc ei draethawd oedd Astudiaeth o'r Wasg Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914-1918. Derbyniodd Meilyr gymorth Ysgoloriaeth Ymchwil y Coleg Cymraeg ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, i fwrw ymlaen gyda'r PhD.

Mae crynodeb o draethawd Meilyr newydd gael ei gyhoeddi yn rhifyn diweddaraf Gwerddon. Ei gynlluniau am y dyfodol yw parhau â'i ddiddordebau ymchwil. Mae prosiect ganddo ar y gweill ynghylch cofeb rhyfel Capel Stryd Elizabeth, Dowlais, gydag enw tri unigolyn a gafodd eu lladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Y gobaith yw y bydd y gofeb yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Castell Cyfarthfa, Merthyr cyn hir.

## e-lyfr Hanesyddiaeth

Mae'n dda adrodd bod y Coleg Cymraeg yn comisiynu e-lyfr ar Hanesyddiaeth.

Gan fod pob myfyriwr Hanes yn dilyn modiwl sy'n ymwneud ag Hanesyddiaeth bydd yn gyhoeddiad defnyddiol a phoblogaidd iawn.

Mae'r Coleg Cymraeg bellach wedi comisiynu Gwasg Prifysgol Cymru i gynhyrchu e-lyfr Hanesyddiaeth. Dyma fydd y llyfr cyntaf ar Hanesyddiaeth yn y Gymraeg.

Yn wahanol i bob llyfr arall ar Hanesyddiaeth, bydd yr e-lyfr yma yn rhoi cyd-destun Gymreig a geirfa Gymraeg i'r ddisgyblaeth. Bydd hefyd am ddim ac ar gael i'w ddarllen mewn sawl ffordd ar y we.

## Enillydd Gwobr John Davies

Enillydd Gwobr John Davies 2018 oedd Elen Mererid Osmond Hughes o Brifysgol Aberystwyth.

Dyfernir y Wobr am y traethawd estynedig orau drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes Hanes Cymru. Pwnc traethawd Elen oedd 'Archwilio egwyddorion imperialaeth newydd y 18fed ar 19eg ganrif yng Nghymu'r oesoedd canol yn dilyn concwest Edward y Cyntaf'.

Daw Elen yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog a meddai, "Rwy'n ddiolchgar iawn i Brifysgol Aberystwyth am yr enwebiad ac i'r Coleg Cymraeg am y wobr. Cefais bleser mawr o astudio Hanes ac mae derbyn y wobr hon, sy'n cydnabod pwysigrwydd ymchwilio ac astudio hanes Cymru yn hynod werthfawr i mi."

Mae Elen bellach yn gweithio fel ymchwilydd i Barc Cenedlaethol Eryri. Llongyfarchiadau iddi a phob hwyl ar ei gyrfa wedi graddio.

## Pwy 'di Pwy - Lleucu Myrddin



**Un o ble ydych chi?** Dwi'n dod o Lwyndyrys yn wreiddiol ond am nad oes na neb byth yn siŵr lle ma' fan 'no, mi fyddai'n deud mod i'n dod o ochra' Pwllheli. Rwy'n astudio Hanes a Chymdeithaseg ym Mangor.

**Pa fodiwlau Hanes ydych chi'n dilyn yn y Gymraeg?** Am fy mod i'n gwneud gradd gyd-anrhydedd gyda Chymdeithaseg, dim ond dau fodiwl Hanes dw i'n ei astudio 'leni ond yn astudio'r ddau trwy gyfrwng y Gymraeg, sef Traethawd Hir Hanes Cymru a modiwl am Brydain Thatcher.

**Ydych chi'n gweld mantais wrth astudio yn y Gymraeg?** Ydw yn sicr - tydw i erioed wedi gwneud unrhyw ran o fy addysg trwy'r Saesneg hyd yma ac yn teimlo'n llawer fwy cyfforddus yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad ydw i wedi dechrau ar fy ngyrfa eto, dw i'n ffyddiog y bydd fy ngallu yn y Gymraeg o fudd i mi.

**Yn ôl i ba gyfnod hanesyddol hoffech chi deithio, a pham?**

Dw i wastad wedi bod 'isho gwbod sut fyd oedd hwn pan oedd Dad yn ifanc yn yr 1970au, yn enwedig ei straeon o o bob un o'r 'gigs ola' Edward H ac ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith.

**Beth hoffech chi ei wneud ar ôl graddio?**

Mwynhau'n hun, lle bynnag fydda'i.